HCS66
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)
Ymateb gan: Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd

Annwyl Gyfaill

Hoffwn I chi ystyried fy ymateb I'r bil uchod.

Mae gennyf bryderon am

- Effaith carafannau gwyliau meddianaeth trwy'r flwyddyn ar:

o Wasanaethau lleol

o Cymunedau gwledig bregus eu heconomi

o Yr iaith Gymraeg

o Allu pobl leol I fforddio tai yn lleol oherwydd pwysau mewnfudo

o Allu llywodraeth leol I fonitro a gweithredu ar gam ddefnyddio yn sgil toriadau

o Hawliau I feddianaeth byw mewn ardal a hawliau trethdalwyr am wasanaethau iechyd ac ati

o Digartrefedd yn gorfodi hawl I gael ty.

- Effaith carafannau gwyliau I gartrefu pobl lleol sydd am gartrefi fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig lle nad oes stoc tai fforddiadwy a stoc tai addas ar gael.

o Rhaid rhoi cyfle I unigolion a thrigolion lleol gael cyfle I fyw mewn carafannau trwy'r flwyddyn lle nad oes cyfle I gael mynediad I stoc tai lleol fforddiadwy

o Dylai LLC a chynghorau lleol glustnodi safleoedd carafannau ar gyfer pobl leol sydd ddim yn gallu cael tai oherwydd diffyg stoc, fforddiadwyedd a lleoliad tai addas yn lleol mewn ardaloedd lle nad oes cyfle I adeiladu tai fforddiadwy na defnyddio tai gwag I'r pwrpas.

- Dylai’r bil ystyried profi gwledig a’r Iaith Gymraeg fel sail cychwynnol I sicrhau bod modd deddfu ar y pwnc yma. Heb wneud yr ymarfewriad hyn ni fydd modd sicrhau dyfodol I gymunedau gwledig cynaliadwy lle mae’r Gymraeg yn gallu ffynnu.

Diolch I chi am eich sylw

Yn gywir

Arfon Hughes

Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd
Ty Abermawddach
4 Stryd Fawr
Blaenau ffestiniog
LL41 3AD